**EITEM X**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **FFORWM CYLLIDEB YSGOLION** |
| **DYDDIAD** | **23 Ionawr 2020** |
| **TEITL** | **Cytundebau Lefel Gwasanaeth 2020-23** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Derbyn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Owen Owens**<br>**Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg** |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | **Y Cynghorydd Cemlyn Rees Williams** |

<u>Cytundebau Lefel Gwasanaeth</u>

Mae Cyngor Gwynedd yn cynnig Cytundebau Lefel Gwasanaeth ar gyfer amrediad o wasanaethau i ysgolion. Mae cyfnod y cytundebau isod yn dod i ben ar 31/03/20.

| **CLG** | **Math o ysgol** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cynradd** | **Uwchradd** | **Arbennig** | **Dilynol** |
| Eiddo - Cynnal a Chadw | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gwasanaeth Addysg Archifau Amgueddfeydd | ✓ | | | ✓ |
| Canolfan Fusnes Addysg | ✓ | | | |
| Cyllidol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Llyfrgelloedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Personél, Cyflogau a Chefnogaeth Gyfreithiol* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Rheoli Banc a Buddsoddiadau, Taliadau ac Incwm a Derbyn Arian | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

Mae’r cytundebau yn cael eu cynnig eto am y cyfnod 01/04/20 i 31/03/23 (neu 01/04/20 i 31/03/21 yn achos CLG y Ganolfan Fusnes Addysg, gan fod y gwaith o sefydlu’r Ganolfan Fusnes yn parhau i ddatblygu).

*Nodir bod yr hen CLG Personél, Cyflogau a Chefnogaeth Gyfreithiol bellach wedi’i rannu i ddau gytundeb ar wahân, sef CLG Cyflogau a Chontractau a CLG Adnoddau Dynol, er mwyn adlewyrchu’n well pwy sy’n darparu pa wasanaeth.

Cynhaliwyd proses ymgynghori gydag ysgolion parthed y Cytundebau Lefel Gwasanaeth fydd yn cael eu cynnig iddynt yn Ebrill 2020.

Derbyniodd yr ysgolion gopïau o’r CLGau drafft a gyflwynwyd gan y gwasanaethau, ac amlygwyd y newidiadau ynddynt o’u cymharu â’r CLGau presennol. Gwahoddwyd yr ysgolion i gyflwyno unrhyw sylwadau. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau gan yr ysgolion.

***Argymhellir y dylai’r Fforwm Cyllideb Ysgolion rhoi sêl bendith ar gynnig y CLGau sydd fel atodiadau i’r adroddiad hwn i ysgolion.***